TAG UG/SAFON UWCH

cbac wjec

TAG UG/Safon Uwch CBAC mewn

# Amgylchedd Adeiledig

## SENARIOS ENGHREIFFTIOL

## UNED 4: ARFERION ADEILADU

I'w haddysgu o fis Medi 2022

# Cynnwys


**Senario A: Ystad breswyl newydd ei hadeiladu** **3**

A. Lleoliad 3

A. Brîff 3

A. Mapiau 4

**Senario B: Estyniad cefn i dŷ canol teras** **5**

B. Lleoliad 5

B. Brîff 5

B. Mapiau 6

**Senario C: Estyniad mewnlenwi i ysbyty** **7**

C. Lleoliad 7

C. Brîff 7

C. Mapiau 8

**Senario Ch: Adeilad swyddfa pedwar llawr yng nghanol y ddinas** **9**

Ch. Lleoliad 9

Ch. Brîff 9

Ch. Mapiau 10

# Senario A: Ystad breswyl newydd ei hadeiladu

Crynodeb datblygiad: 248 o anheddau preswyl, gan gynnwys hyd at 30% o dai fforddiadwy.

## A. Lleoliad

Mae'r safle wedi'i leoli'n gyfagos i bentref o tua 2000 o anheddau mewn lleoliad lled-wledig. Mae'r ffordd sy'n rhedeg yn gyfagos i'r tir yn ffordd B, sy'n dod â thraffig o'r dref leol. Mae prif ffyrdd mawr tua 20 munud i ffwrdd ar hyd y ffordd B, sy'n ffordd unffrwd heb lwybrau i gerddwyr. Mae'r pentref ar ochr ddwyreiniol y ffordd B ac mae'r datblygiad newydd ar yr ochr orllewinol.

Mae gan y pentref ganolfan gymunedol a chasgliad bach o siopau yng nghanol y pentref, sy'n cynnwys swyddfa bost a fferyllfa. Mae meddygfa ac un ysgol gynradd yn y pentref sydd hefyd yn gwasanaethu pentrefi cyfagos.

## A. Brîff

Mae'r safle arfaethedig yn safle tir glas sydd â mynediad ar hyn o bryd drwy bwynt mwyaf deheuol y safle ymlaen i'r ffordd B. Bydd y mynediad hwn yn ei le ar gyfer y rhan fwyaf o'r amser adeiladu. Fodd bynnag, cynigir mynediad newydd i'r datblygiad gorffenedig o'r ffordd B ymhellach i fyny'r ffordd.


Mae 248 o dai preswyl ar y safle, sydd wedi cael caniatâd cynllunio llawn. Byddant rhwng tair a phum ystafell wely, gyda garej integrol neu ar wahân. Bydd parcio ar gael ar gyfer pob annedd ar gyfer o leiaf dau gar.

Bydd y tai yn cael eu hadeiladu o ffrâm bren gyda brics ar y tu allan ar ran isaf yr eiddo a chladin pren ar y drychiadau uchaf. Bydd y sylfeini yn sylfeini ffosydd gyda thrawst crog a llawr bloc. Mae cyflwr y ddaear yn dda gyda lefel trwythiad uchel.

Mae'r gwaith adeiladu i'w gwblhau fesul cam dros amserlen o 36 mis, gyda'r trosglwyddiad cyntaf wedi'i drefnu chwe mis ar ôl i'r gwaith ddechrau ar y safle ac yna trosglwyddo rheolaidd pob tri mis nes ei gwblhau. Y flaenoriaeth gyntaf ar y safle yw adeiladu cartref gwerthu at ddibenion arddangos.

## A. Mapiau

Senario A: Cynllun safle presennol



Senario A: Cynllun arfaethedig o'r safle



# Senario B: Estyniad cefn i dŷ canol teras

Crynodeb datblygiad: Estyniad cefn un llawr i dŷ annedd gyda gwaith strwythurol cysylltiedig.

## B. Lleoliad

Mae'r safle wedi'i leoli mewn tref farchnad brysur o fewn yr ardal ganolog. Yr unig fynediad i'r stryd yw trwy system unffordd. Mae'r stryd ei hun yn gul, gyda pharcio ceir yn debygol o atal cerbydau mawr iawn rhag mynd trwyddi.

## B. Brîff

Mae'r datblygiad arfaethedig y tu ôl i'r eiddo. Mae mynediad ar gael naill ai drwy'r annedd neu'r giât yng nghefn yr ardd, mae'n bosibl ei chyrraedd o'r ffordd sy'n rhedeg yn gyfagos i'r  eiddo.


Bwriad yr estyniad yw creu ystafell deulu fawr yng nghefn yr eiddo. Bydd dau drawst dur sydd angen cynnal y lloriau uchaf a'r gwaith cysylltiedig ar y sylfeini. Bydd gan gefn yr estyniad ddrws deublyg (*bifold*) mawr sy'n agor i'r ardd. Mae cyflwr y ddaear yn dda iawn a gellir defnyddio slabiau llawr sy'n gorffwys ar y ddaear. Dylai fod codiad i'r to ar yr estyniad gyda draeniad dŵr glaw digonol wedi'i osod. Ar hyn o bryd, mae dŵr glaw o gefn yr eiddo yn mynd i garthffosydd cyhoeddus, ond bydd angen dod â hyn i ben yn dilyn amodau cynllunio.

Ni fydd mynediad i gyfleusterau o fewn y tŷ drwy gydol cyfnod y project adeiladu.


Mae man parcio o flaen yr eiddo sy'n gallu cael ei ddefnyddio, fodd bynnag ar hyn o bryd mae mewn cyflwr gwael ac nid yw'n wastad.

## B. Mapiau









# Senario C: Estyniad mewnlenwi i ysbyty

Crynodeb datblygiad: Estyniad mewnlenwi mewn ysbyty bach gwledig sydd â mynediad trwy faes parcio bach.

## C. Lleoliad

Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal wledig, wedi'i amgylchynu gan goetiroedd, yn agos i dref ganolig a gyda chysylltiadau da â phrif ffyrdd. Er bod y safle'n wledig, mae mynediad ffordd i'r ysbyty o gylchfan, sy'n gwasanaethu'r brif ffordd A ar gyfer yr ardal. Mae hyn yn rhoi mynediad da i'r dref.

Mae'r ysbyty ar gyfer cleifion geriatrig ac mae'n gwasanaethu fel canolfan gofal lliniarol i gleifion mewnol, yn ogystal â darparu canolfan ar gyfer tîm nyrsio cymunedol mawr. Mae ganddo un ward gyda 25 gwely, gyda maes parcio maint da. Nid oes cyfleusterau ar y safle sydd ar gyfer yr ysbyty, fel siopau neu fwytai.

## C. Brîff

Mae'r estyniad arfaethedig ar gyfer ymestyn y gegin bresennol i gynnwys mwy o ardal storio, fel bod modd coginio bwyd i'r cleifion ar y safle, yn ogystal â darparu dewis bach o fwyd i fod ar gael i ymwelwyr. Bydd yr estyniad yn cael ei adeiladu rhwng dwy ran o'r adeilad, fel dangosa'r petryal glas ar y mapiau.

Mae cyflwr y ddaear yn wael ac mae'n debygol bydd angen sylfaen bileri. Bydd angen defnyddio llawr crog gyda wal geudod brics, yn unol ag ymddangosiad adeiladwaith Edwardaidd yr ysbyty gwreiddiol. O dan yr estyniad arfaethedig mae gwasanaethau presennol, fel prif gyflenwad trydan a phrif bibellau dŵr, rhaid peidio â tharfu ar hyn yn ystod y gwaith adeiladu.

Gan fydd yr ysbyty yn gweithredu'n llawn yn ystod yr amser adeiladu, mae'n ofyniad bod cyn lleied o sŵn â phosib. Mae gofyn hefyd am gyfyngu ar lwch ar y safle. Disgwylir i'r gwaith adeiladu barhau am 20 wythnos.


Mae'r mynediad i'r ardal adeiladu drwy brif fynedfa'r ysbyty a thrwy'r maes parcio i ffordd sy'n fynediad bach tu ôl i'r ysbyty, sy'n arwain at yr ardal i'w datblygu.

## C. Mapiau









# Senario Ch: Adeilad swyddfa pedwar llawr yng nghanol y ddinas

Crynodeb datblygiad: Adeilad swyddfa pedwar llawr yng nghanol y ddinas gyda maes parcio bach.

## Ch. Lleoliad

Mae’r safle mewn ardal fasnachol yng nghanol y ddinas, gyda gorsaf reilffordd yn eithaf agos a maes parcio i’r gorllewin o’r safle. Mae’r ardal hon wedi cael ei dyrannu fel ardal ar gyfer adfywio er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol i fusnesau sefydlu eu swyddfeydd o fewn lleoliad gwych, sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da ac sy’n cynnig parcio i weithwyr yn ogystal ag ymwelwyr.

Mae’r ddinas wedi derbyn llawer iawn o fuddsoddiad fel rhan o waith adfywio’r ardal, ac fe’i nodwyd yn ddiweddar fel un sydd ag economi sy’n tyfu, sydd hefyd wedi cynyddu’r galw am ofod swyddfa gan berchnogion busnes.

## Ch. Brîff

Mae’r safle arfaethedig yn safle tir llwyd, sydd wedi’i ddefnyddio ar gyfer storio cerbydau o hen fodurdy a oedd ar y safle. Mae’r strwythurau uwchben y ddaear wedi’u tynnu, fodd bynnag mae strwythurau o dan y ddaear a halogiad yn debygol. Mae nifer o hen gynwysyddion storio wedi cael eu gadael ar y safle ar hyn o bryd.

Mae’r bloc swyddfa wedi cael ei gynllunio i lenwi canran helaeth o’r tir sydd ar gael, gyda maes parcio bach uwchben y ddaear i ymwelwyr, a maes parcio mwy o faint o dan y ddaear i weithwyr. Bydd pedwar llawr, pob un yn cynnig derbynfa a gofod swyddfa cynllun agored i’w rannu, yn unol â gofynion busnes y rhai sy’n rhentu pob llawr. Dylai fod gan bob llawr gyfleusterau cegin ac ystafell ymolchi ar gael a bydd grisiau canolog gyda lifft yn gwasanaethu pob llawr.

Mae’r eiddo i fod yn adeiladwaith ffrâm goncrit gyda chladin (*cladding*) llenfur yn darparu agweddau i bob ochr.

Mae gan y project dyddiad derfyn amser o 12 mis.

## Ch. Mapiau





